Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Mawrth, 17 Hydref 2023

Lisa Evans

Annwyl Syr / Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron/o bell trwy fideo-gynadledda., Dydd Llun, 23 Hydref 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

3. **Cynigion a Chyfleoedd ar gyfer Parcio (Tudalennau 3 - 20)**

4. **Canolfan Bwyd Cymru (Tudalennau 21 - 24)**

5. **Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 25 - 28)**

6. **Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 29 - 34)**

Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb

Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.

Yn gywir

Miss Lowri Edwards
Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.

CYNGOR SIR CEREDIGION

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**

Dyddiad y cyfarfod: **23 Hydref 2023**

Teitl: **Cynigion a Chyfleoedd ar gyfer Parcio**

Pwrpas yr adroddiad: **Darparu gwybodaeth ynglŷn â'r argymhellion canlynol a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 05 Medi 2023**

i. Bod y Cabinet yn ystyried cynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth; a
ii. Bod y Cabinet yn ystyried cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

Rheswm y mae'r Pwyllgor Craffu wedi gofyn am y wybodaeth hon:
Er mwyn derbyn y wybodaeth berthnasol fel y gellid cael trafodaeth am y cynigion uchod. Ar ôl hynny, mae'n bosibl y caiff y cynigion eu cyflwyno gerbron y Cabinet fel y gall yr Aelodau Cabinet eu hystyried.

Cefndir

i. Bod y Cabinet yn ystyried cynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth

Mae cynigion ynghylch ystyried codi tâl am barcio ar y Promenâd yn Aberystwyth wedi'u trafod ers cryn amser. Er mwyn ystyried y mater hwn yn fwy manwl, mae angen deall y broses a fyddai'n sail i hyn a'r amserlenni a fyddai'n gysylltiedig â mynd ati i wireddu hyn.

ii. Bod y Cabinet yn ystyried cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

Cyflwynwyd adroddiad **(Atodiad 2)** gerbron y Pwyllgor hwn ar 31 Gorffennaf 2023 a oedd yn cynnwys manylion am y cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor. Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod y Pwyllgor, gwnaed yr argymhelliad canlynol:

> ii. Bod y Cabinet yn ystyried cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

Y sefyllfa bresennol

i. Bod y Cabinet yn ystyried cynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth

Mae'r broses a'r amserlen sy'n gysylltiedig â chyflwyno parcio ar y stryd ar rannau o'r briffordd ar Bromenâd Aberystwyth wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1.**

Pe byddai cefnogaeth mewn egwyddor i'r cynnig hwn, byddai angen paratoi adroddiad arall ynghylch y posibilrwydd o roi'r cynnig hwn ar waith. Byddai'r adroddiad hwnnw yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl am agweddau ymarferol, ariannol a gwleidyddol y cynnig, ystyriaeth o'r hyn y byddai'r cyhoedd yn barod i'w dderbyn a'r goblygiadau ynghylch materion parcio ehangach yn Aberystwyth ac unrhyw bwysau cysylltiedig.

ii. Bod y Cabinet yn ystyried cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

Mae gwybodaeth am y tocynnau a werthwyd ar gyfer parcio am 1 awr a 2 awr cyn 10:00 yn y meysydd parcio yn Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi rhwng 01 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 i'w gweld yn **Atodiad 3.** Mae **Atodiad 4** yn darparu'r un data ar gyfer y tocynnau a werthwyd rhwng dydd Llun a dydd Gwener yn unig**.**

Rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r data hwn am fod posibilrwydd y gwelwn ni newid yn ymddygiad pobl am nifer o resymau. Er hynny, mae'r data yn rhoi syniad i ni o'r incwm y byddai'r Cyngor Sir yn ei golli pe byddai parcio am ddim ar gael cyn 10:00 ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y tair tref.

Pe cynigir parcio am ddim am 7 diwrnod yr wythnos, byddai'r incwm a gollir oddeutu £45,000 a phe cynigir parcio am ddim o ddydd Llun i ddydd Gwener, byddai'r incwm a gollir oddeutu £38,000.

Mae'r cynnig dan sylw yn ymwneud â chynnig parcio am ddim mewn un maes parcio ym mhob tref. Serch hynny, os yw parcio am ddim yn ffactor sy'n dylanwadu ar yr hyn y mae pobl yn ei wneud, mae'n rhesymol tybio y byddai pobl yn rhoi'r gorau i barcio yn y meysydd parcio a fyddai'n parhau i godi tâl ac y byddent yn lle hynny yn parcio yn y meysydd parcio lle na chodir tâl.

O ystyried hyn ac at ddibenion modelu, rydym yn tybio y byddai'r incwm o £45,000/£38,000 yn cael ei golli yn ei gyfanrwydd.

Felly, er mwyn osgoi dryswch, mae'n debygol y byddai'n haws ac yn fwy ymarferol ystyried cynnig parcio am ddim cyn 10:00 ym mhob un o'r meysydd parcio yn y trefi dan sylw, gan ddechrau codi tâl am barcio am 10:00.

Byddai'r incwm o £45,000/£38,000 a gollir yn ychwanegol at y £40,000 a ragwelir ar hyn o bryd sy'n cael ei golli bob blwyddyn am fod parcio am ddim yn cael ei gynnig yn y Meysydd Parcio Talu ac Arddangos yn Nhregaron a Llandysul. Byddai cyfanswm yr incwm a gollir felly rhwng £78,000 a £85,000.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw dystiolaeth bendant sy'n awgrymu bod parcio am ddim yn Llandysul a Thregaron wedi cael unrhyw effaith ar yr economi leol.

Byddai cadw'r trefniadau parcio am ddim yn Llandysul a Thregaron a mynd ati wedyn i gyflwyno trefniadau parcio am ddim am ddwy awr yn nhair o drefi Ceredigion yn cael effaith ariannol negyddol ar yr Awdurdod ac ar ben hynny, byddai hyn yn ein symud ni ymhellach i ffwrdd oddi wrth resymoli'r hyn a gynigir o ran parcio oddi ar y stryd yng Ngheredigion.

Mae diffyg cysondeb yn medru arwain at ddryswch. Os yw'r hyn sy'n cael ei gynnig yn syml, yn glir ac yn gyson, mae'n haws i bobl ddeall yr hyn sy'n digwydd ac mae'n haws cyfathrebu'r neges a'i hyrwyddo. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn awyddus i symud i'r cyfeiriad hwn yn y blynyddoedd diwethaf.

Fodd bynnag, mae'n glir o'r adborth sydd wedi dod i law nad ydy pawb yn llwyr ddeall y strwythurau codi tâl a'r prisiau a godir a dim ond cymhlethu'r sefyllfa y byddai cynigion fel y rhain.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam.
Ar ôl i'r Pwyllgor ofyn am adroddiad sy'n rhoi sylw i'r cynnig dan sylw, darperir yr adroddiad hwn fel y gall yr Aelodau ei ystyried.

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:

Hirdymor:	Ddim yn berthnasol
Cydweithio:	Ddim yn berthnasol
Cynnwys:	Ddim yn berthnasol
Atal:	Ddim yn berthnasol
Integreiddio:	Ddim yn berthnasol

Argymhelliad:

Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad ac o ystyried:

- **yr heriau ariannol llwm y mae'r Awdurdod yn eu hwynebu yn ehangach; a**
- **phrinder unrhyw dystiolaeth bendant i awgrymu bod parcio am ddim yn Llandysul a Thregaron wedi cael unrhyw effaith ar yr economi leol**

nid ydyw'n cefnogi nac yn argymell bwrw ymlaen â'r cynnig i gyflwyno dwy awr o barcio am ddim cyn 10:00 yn y meysydd parcio talu ac arddangos yn Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi.

Rhesymau dros y penderfyniad:

Enwau Cyswllt: Gerwyn Jones
Katy Spain

Swyddi: Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Amgylcheddol
Rheolwr Gwasanaeth: Gwasanaethau Trafnidiaeth

Dyddiad yr adroddiad: 09 Hydref 2023

Atodiad 1

Y broses, yr ystyriaethau a'r amserlenni sy'n gysylltiedig â chyflwyno parcio ar y stryd ar rannau o'r briffordd ar Bromenâd Aberystwyth

Yn gyfreithiol ac yn ymarferol, byddai modd bwrw ymlaen â'r cynnig a awgrymwyd yn ystod y pwyllgor craffu ar 31 Gorffennaf 2023 i gyflwyno tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth.

Byddai angen ymgynghori'n llawn â'r cyhoedd fel rhan o'r broses arferol ar gyfer unrhyw Orchymyn Traffig, a phe byddai trefniadau ar gyfer codi tâl yn cael eu cyflwyno drwy Orchymyn Traffig ar wahân yn hytrach na fel rhan o ddarn mwy o faint o waith, byddai'r gost gyfreithiol o hysbysebu oddeutu £5,000.

Yn gyffredinol, mae dau fath o Orchmynion Rheoleiddio Traffig y gall Cyngor Sir Ceredigion, fel Awdurdod y Priffyrdd, ystyried eu cyflwyno i atal parcio ar y briffordd gyhoeddus neu gyfyngu ar hynny. Mae'r rhain fel a ganlyn:

a) Gorchymyn Rheoleiddio Traffig parhaol – mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad ffurfiol llawn â'r cyhoedd a byddai fel arfer yn cymryd rhwng 6 a 12 mis i'w gyflwyno. Nid oes modd diwygio/newid y math hwn o Orchymyn heb gynnal proses ffurfiol lawn.
b) Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Arbrofol – gorchymyn yw hwn y gellid ei ddefnyddio i roi cynnig ar fesurau newydd ar y briffordd a byddai angen ymgynghori â'r gwasanaethau brys. Fel arfer, mae Gorchymyn Rheoleiddio Traffig Dros Dro yn cymryd tua 3-6 mis i'w gyflwyno a gall y Gorchymyn bara am hyd at 18 mis. Yn ystod y chwe mis cyntaf, caiff y mesurau a gyflwynwyd eu monitro a'u hasesu a chaiff unrhyw wrthwynebiadau neu newidiadau eu hystyried.

Gwnaed rhywfaint o waith ymchwilio yn ôl yn 2016 a gwnaeth y gwaith hwnnw nodi'r lleoliadau canlynol fel mannau lle byddai modd codi tâl am barcio mewn cilfannau parcio ar hyd y promenâd (gweler y niferoedd mewn cromfachau):

- Rhwng pen gogleddol Rhodfa Fuddug a'r gyffordd â Maes Albert (39)
- Rhwng y gyffordd â Maes Albert a'r groesfan i gerddwyr ger y toiledau (19)
- Rhwng y groesfan ger y toiledau a'r groesfan ger Ffordd y Môr (15)
- Rhwng Ffordd y Môr a'r Pier Brenhinol (ar ochr y môr) (27)
- Y tu allan i Westy'r Belle Vue (ar ochr y tir) (8)
- Y cilfannau aros cyfyngedig ger y gyffordd â Heol y Wig (ochr y tir) (20)
- Rhwng y man i'r de o'r Pier a Phen y Castell (43)
- Y cilfannau y tu allan i Westy'r Cambria / y Brifysgol (12)
- Rhwng Pen y Castell a'r Ro Fawr (23)
- Y Ro Fawr (ochr y môr) (20)
- Y Ro Fawr (ochr y tir) (20)

Nid ydym yn awgrymu y dylid codi tâl am barcio ym mhob un o'r lleoliadau hyn gan y gellid disgwyl cryn wrthwynebiad yn achos rhai o'r lleoliadau, o ystyried mor agos y maent at westai, llety gwely a brecwast, busnesau eraill, llety myfyrwyr ac ati.

Wrth gyfrifo hyn, mae 6 metr o hyd wedi'i ganiatáu ar gyfer pob cerbyd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hyd arferol o rhwng 4.8m a 6.6m ar gyfer cilfannau parcio sydd wedi'u marcio'n unigol ac sy'n gyfochrog â'r cyrbau. Golyga hyn y byddai lle ar gyfer cerbydau mwy o faint megis cerbydau gyriant pedair olwyn. Fel arfer, mae trefniadau parcio talu ac arddangos ar y stryd yn cael eu sefydlu ar ffurf parthau, a cheir arwyddion i ddangos eich bod yn dod i mewn i'r parthau hynny.

Gan ddibynnu ar yr union fannau y byddai'r tâl am barcio yn cael ei godi, byddai angen ychwanegu costau'r arwyddion sy'n gysylltiedig â'r parth at y costau o sefydlu'r drefn hon (tua £500 am bob arwydd a phostyn, gan gynnwys y gwaith o'u gosod). Hefyd, mae'n bosibl y byddai angen gosod gwaharddiadau ychwanegol ar barcio (e.e. llinellau melyn dwbl).

Yn 2016, tybiwyd y byddai angen gosod un peiriant tocynnau ar gyfer pob 11 o lefydd parcio i gerbydau. Byddai hynny'n costio £5,000 am bob peiriant tocynnau. Pe byddai pob lleoliad yn cael ei gynnwys, byddai angen 26 o beiriannau (a fyddai'n costio £130,000).

Gallai'r effaith o godi tâl am barcio ar lan y môr yn Aberystwyth fod yn un sylweddol i'r Gwasanaethau Parcio, a dylid ystyried cynyddu'r adnoddau o ran staff yn unol â hynny.

Ateb arall fyddai gofyn i bobl dalu am barcio drwy ap neu system ar y ffôn. Byddai hynny'n golygu na fyddai angen rhoi seilwaith costus ar waith ond gallai hyn fod o bryder i'r rheiny nad ydynt yn gyfarwydd â thalu drwy apiau.

Awgrymwyd na ddylai'r strwythur codi tâl fod yn rhy annhebyg i strwythurau eraill Cyngor Sir Ceredigion ar gyfer codi tâl gan y gallai strwythur gwahanol beri dryswch i'r defnyddwyr. O ystyried hyn, dyma'r cyfraddau sy'n cael eu cynnig ar gyfer parcio: £2.30 (1 awr), £3.40 (2 awr), £4.60 (3 awr), £6.00 (diwrnod). Mae'r rhain yn cyfateb i'r hyn a godir ar hyn o bryd am gael barcio yn y meysydd parcio arhosiad byr yn Aberystwyth.

Yn ogystal ag ystyried y lleoliadau ar gyfer unrhyw barthau talu ac arddangos ar y stryd, dylid ystyried beth fyddai'n ddymunol o ran y cyfnod hiraf y gall rhywun barcio yn un o'r cilfannau, o gofio y byddai gan fodurwyr amrywiol resymau dros barcio yn y mannau hyn.

Manteision ac Anfanteision Codi Tâl

Wrth ystyried a thrafod hyn yn 2016, bu i'r rhanddeiliaid nodi'r prif fanteision ac anfanteision ynghylch cyflwyno tâl am barcio ar hyd Promenâd Aberystwyth.

Bu i'r rhanddeiliaid restru'r manteision canlynol:

- Byddai codi tâl am barcio yn darparu refeniw ychwanegol y mae mawr ei angen i helpu ariannu'r gwasanaethau eraill y mae Cyngor Sir Ceredigion yn eu darparu
- Gallai codi tâl am barcio olygu y bydd mwy o fynd a dod o ran y llefydd parcio a gallai hynny fod o help i greu mwy o lefydd i barcio ar y promenâd yn ystod cyfnodau prysur

- Gallai'r ffaith bod mwy o fynd a dod o ran y llefydd parcio annog mwy o bobl i ymweld ag Aberystwyth gan y byddent yn gwybod y byddai ganddynt rywle swyddogol i barcio ar lan y môr.
- Os byddai mwy o fynd a dod o ran y llefydd parcio, mae'n bosib y byddai nifer yr ymwelwyr sy'n medru parcio ar lan y môr yn cynyddu yn ystod y dydd.
- Pe byddai hyn yn digwydd, awgrymwyd y gallai fod o gymorth i gynyddu nifer y cwsmeriaid a fyddai ar gael i fusnesau lleol ar hyd y Promenâd.
- Gallai codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd helpu i annog teithio llesol yn Aberystwyth

Bu i'r rhanddeiliaid restru'r anfanteision canlynol:

- Byddai cost ynghlwm wrth weithredu a rheoli system newydd o godi tâl am barcio.
- Efallai y byddai codi tâl am barcio yn gwneud i bobl/ymwelwyr feddwl ddwywaith cyn parcio ar hyd y promenâd
- Os byddai ymwelwyr yn amharod i dalu am barcio ar hyd y Promenâd, gallai hyn fod o anfantais i fusnesau lleol
- Gallai parth newydd lle codir tâl am barcio olygu y bydd gan drigolion farn neu ganfyddiad negyddol o Gyngor Sir Ceredigion.

Pe byddai problemau yn codi am fod pobl yn parcio mewn llefydd eraill neu am fod diffyg lle i barcio ar ôl i'r ffioedd gael eu cyflwyno, mae yna fesurau lliniaru y byddai modd eu cyflwyno. Gallai hyn gynnwys ystyried cynllun trwyddedau parcio i breswylwyr neu barthau parcio i breswylwyr.

Serch hynny, byddai angen i Gyngor Sir Ceredigion ystyried hyn oll yn ofalus iawn cyn ei roi ar waith gan y gallai'r cynlluniau hyn fod yn gostus iawn i'w gweithredu o ran amser swyddogion gan y byddai angen iddynt sefydlu'r drefn newydd a'i gweinyddu ynghyd â rhoi trwyddedau. Yn ogystal, mae'n bosib na fydd hyn yn bodloni disgwyliadau'r rhanddeiliaid o ran medru cael lle i barcio pan fo angen.

Atodiad 2

Cyngor Sir CEREDIGION

ADRODDIAD I'R: Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

DYDDIAD: 31 Gorffennaf 2023

LLEOLIAD: Siambr y Cyngor, Penmorfa

TEITL: Ystyried y cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.

PWRPAS YR ADRODDIAD: I'w ystyried

Y RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 10 Chwefror 2023 i ystyried y Ffioedd a'r Costau ar gyfer 2023/24, cynigiwyd y dylid ystyried yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym mhob un o Feysydd Parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Ceredigion.

CEFNDIR:

1.1 Gwybodaeth gyffredinol am feysydd parcio

Mae'r Cyngor yn rhedeg 21 o Feysydd Parcio Talu ac Arddangos ar draws Ceredigion ac mae'r meysydd parcio hyn yn Aberaeron, Aberystwyth, Aberteifi, Ceinewydd, Llanbedr Pont Steffan, Llandysul a Thregaron. Mae'r rhain yn cynnwys meysydd parcio arosiadau byr yn unig, meysydd parcio sy'n caniatáu arosiadau byr ac arosiadau hir, a meysydd parcio arosiadau hir yn unig. Hefyd, ceir meysydd parcio sy'n caniatáu parcio drwy'r flwyddyn gyfan lle codir tâl rhwng 8am a 6pm a meysydd parcio tymhorol lle codir tâl rhwng 8am a 10pm o 1 Mawrth i 31 Hydref bob blwyddyn.

Mae manylion y rhain wedi'u crynhoi yn **Atodiad 1**.

Mae gan y cyhoedd y dewis a ydynt am ddefnyddio Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor neu a ydynt am ddefnyddio llefydd eraill i barcio gan gynnwys parcio rhad ac am ddim ar y stryd a pharcio oddi ar y stryd (y codir tâl amdano neu sydd ar gael yn rhad ac am ddim) a ddarperir gan eraill.

Yn gyffredinol, mae ffioedd a chostau Meysydd Parcio'r Cyngor yn cymharu'n ffafriol â'r hyn y mae awdurdodau lleol eraill yn ei godi. Er mwyn rhoi syniad i chi o'r sefyllfa, mae costau rhai tocynnau 2 awr a thocynnau 24 awr mewn meysydd parcio sy'n debyg i'w gilydd wedi'u nodi isod:

Tocynnau 2 awr

- Aberteifi / Aberaeron / Llanbedr Pont Steffan: £2.60

- Machynlleth: £2.50
- Aberystwyth a'r Meysydd Parcio Tymhorol yng Ngheredigion (Ceinewydd ac Aberaeron): £3.40
- Y Bermo ac Aberdyfi: £1.10 - £4.00
- Dinbych-y-pysgod: £2.00
- Llandudno: £1.70 - £2.70

Tocynnau 24 awr

- Aberteifi / Aberaeron / Llanbedr Pont Steffan: £4.60
- Machynlleth: £4.00
- Aberystwyth a'r Meysydd Parcio Tymhorol yng Ngheredigion (Ceinewydd ac Aberaeron): £6.00
- Y Bermo ac Aberdyfi: £6.60 (gaeaf) - £11.00 (haf)
- Dinbych-y-pysgod: £6.00
- Llandudno: £6.00 - £12.00

Er bod rhai unigolion neu grwpiau yn aml yn nodi bod cost parcio yn ffactor sylweddol sy'n effeithio ar nifer y bobl sy'n ymweld â threfi, a bod galwadau am gyflwyno parcio am ddim yn cael eu gwneud, mae adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2015 ynghylch "Asesu effaith taliadau meysydd parcio ar nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref" (https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/150610-assessing-impact-car-parking-charges-town-centre-footfall-en.pdf) (dogfen Saesneg yn unig), yn dod i'r casgliad canlynol:

- *"The literature review and primary research indicated that car parking charges are only one of a number of factors at play in influencing footfall and town centre vitality.*
  (5.1.2, p.32)

- *Overall, this research has indicated that the following parking related factors are important determinants of people's behaviour in relation to town centres.*

    - *Availability of spaces*
    - *Restrictions on parking (i.e. how long people can park for)*
    - *Proximity of parking to intended destination*
    - *Traffic flow*
    - *Signage*
    - *Overall retail offering*
    - *Out of town retail offering*
    - *Out of town parking charges*
    - *Price of car parking*
    - *Security of car park*
    - *Incentives for parking*

  (5.1.2, p.32)

- *These factors are subject to ongoing changes, making it difficult to determine the extent to which they are responsible for changes in behaviour. Our survey also indicated that, while people did agree that*

car parking charges affect their behaviour, convenience is also a critical factor. In addition, the accessibility of spaces, the number of spaces, and the proximity of parking to the town centre were all shown to be as important as cost."
(5.1.3, p.32)

1.2 Y sefyllfa gynrychioliadol o ran tocynnau a werthwyd sy'n gysylltiedig â cherbydau o dan 3.5t (ceir, faniau a beiciau modur) ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Ceredigion

Mae rhaniad cynrychioliadol o'r tocynnau a werthwyd ar draws y meysydd parcio dros gyfnod o 12 mis wedi'i grynhoi yn **Nhabl 1** isod. Mae'r tabl yn dangos bod rhan fwyaf (61.39%) yr holl docynnau a werthwyd ar gyfer arosiadau hyd at 2 awr a bod iddynt werth ariannol (net) o £538,545 o dan brisiau 2023/24 sy'n cyfateb i 41.73% o gyfanswm yr incwm.

Math o docyn	Nifer y tocynnau a werthwyd	Canran o'r holl docynnau a werthwyd	Gwerth ariannol (net) – prisiau 23/24
1 awr	124,206	29.24%	£219,259
2 awr	136,607	32.15%	£319,287
3 awr	55,491	13.06%	£175,128
24 awr	104,398	24.57%	£517,133
Wythnosol	4,146	0.98%	£59,617
Cyfanswm	**424,848**	100%	**£1,290,423**

Tabl 1. Dadansoddiad o'r tocynnau a werthwyd (cyfnod y data – 01/11/2021 – 31/10/22 – nid yw'r data yn cynnwys Llandysul a Tregaron gan na chodwyd tâl yn y meysydd parcio hyn yn ystod y cyfnod hwn)

1.3 Y disgwyliadau o ran Cyllideb 2023/24

Mae'r gyllideb yn disgwyl y bydd y meysydd parcio Talu ac Arddangos yn creu incwm o £1,581,000 (net) yn 2023/24. Serch hynny, yn seiliedig ar nifer y tocynnau a werthwyd yn hanesyddol, mae'n annhebygol y bydd y disgwyliad hwn o ran incwm yn cael ei wireddu, a rhagwelir diffyg o oddeutu £300,000 yn yr incwm. Yn 2022/23, roedd y diffyg yn £148,909 (net) a hynny'n seiliedig ar darged o £1,221,000 (net) o ran yr incwm.

1.4 Y ddarpariaeth ar hyn o bryd o ran parcio am ddim yn y Meysydd Parcio Talu ac Arddangos

Mae'r Cyngor eisoes yn darparu cyfnodau o barcio am ddim yn ei feysydd parcio Talu ac Arddangos ac, er y gallai'r Cyngor benderfynu codi tâl, nid ydyw'n codi tâl ar hyn o bryd o ran y canlynol:

- Rhwng 6pm ac 8am yn y meysydd parcio sydd ar agor drwy'r flwyddyn

- Rhwng 10pm ac 8am yn y meysydd parcio tymhorol:
- Rhwng 1 Tachwedd a 28/29 Chwefror bob blwyddyn yn y meysydd parcio tymhorol; nac ychwaith
- Ar y 3 dydd Sadwrn cyn y Nadolig bob blwyddyn.

Yn ogystal â chyfnodau o barcio am ddim, mae amrywiol docynnau tymor ar gael i'w defnyddio yn y Meysydd Parcio Talu ac Arddangos.

Mae'r rhain yn cynnig gwerth ardderchog am arian i'r rheiny sy'n dymuno defnyddio'r meysydd parcio hyn yn rheolaidd.

Mae'r canlynol yn rhoi syniad i chi o'r gost fesul diwrnod pan fydd rhywun yn prynu tocyn tymor am 7 diwrnod a 5 diwrnod yr wythnos.

Aberaeron / Aberteifi / Llanbedr Pont Steffan
£402 / 365 = £1.10
£402 / 260 = £1.55

Aberystwyth
£436 / 365 = £1.19
£436 / 260 = £1.68

1.5 Y ddarpariaeth o ran parcio ar y stryd

Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn darparu cyfleoedd i barcio yn rhad ac am ddim am gyfnodau cyfyngedig ac i barcio heb gyfyngiadau ar y stryd ym mhob man lle mae'n rhedeg Meysydd Parcio Talu ac Arddangos.

Mae'r cyfleoedd i barcio am ddim yn amrywio rhwng arosiadau am gyfnodau cyfyngedig o 30 munud, 1 awr, 2 awr, 3 awr a 4 awr (yn gyffredinol rhwng 8am a 6pm a heb gyfyngiadau y tu hwnt i'r amseroedd hyn) a chyfnodau diderfyn yn ystod y dydd.

Mae hyn yn ychwanegol at y cilfannau penodedig ar gyfer deiliaid y Bathodyn Glas lle ceir cyfyngiadau amser.

1.6 Effaith ariannol darparu parcio am ddim am 2 awr cyn 11am

Mae **Tabl 2** isod yn rhoi crynodeb o'r tocynnau 1 awr a 2 awr a brynwyd cyn 11am ar draws Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023.

Pe byddai'r cynnig yn cael ei roi ar waith, gallai arwain at golli incwm o hyd at £130,000 (net). Mae'r ffigwr hwn yn seiliedig ar docynnau a werthwyd yn hanesyddol.

Serch hynny, nid yw hyn yn ystyried effeithiau posibl na fwriadwyd gan gynnwys:

- Y rheiny sydd ar hyn o bryd yn defnyddio'r meysydd parcio ac sy'n talu am barcio ar ôl 11am ond a fyddai'n newid eu harferion o ran ymweld fel y gallent

elwa o'r ddarpariaeth rad ac am ddim. Byddai hyn yn arwain at golli rhagor o incwm y tu allan i'r cyfnodau lle cynigir cyflwyno parcio am ddim.

- Colli'r incwm a ddaw oddi wrth ymwelwyr sydd ar hyn o bryd yn aros mwy na 2 awr ond llai na 4 awr a fyddai'n newid eu harferion o ran ymweld fel y gallent elwa o'r ddarpariaeth am ddim. Mae'n bosib y byddent yn dewis peidio â thalu i ymestyn eu hamseroedd ymweld.

- Colli'r incwm a ddaw oddi wrth ymwelwyr sydd ar hyn o bryd yn aros mwy na 2 awr ond llai na 4 awr e.e. byddai rhywun sy'n parcio ym Maesyrafon am 9am ac sy'n dymuno aros am 4 awr ar hyn o bryd yn talu am docyn 24 awr sy'n costio £6; fodd bynnag, o dan y cynnig diwygiedig, ni fyddai ond yn rhaid iddynt brynu tocyn am 2 awr (o 11am ymlaen), a byddai hynny'n arwain at golli £2.60, swm sydd heb ei gynnwys yn yr hyn a amcangyfrifir.

- Colli'r incwm a ddaw oddi wrth ymwelwyr sydd ar hyn o bryd yn aros mwy na 4 awr a fyddai'n newid eu harferion o ran ymweld fel y gallent elwa o'r ddarpariaeth am ddim, ac a fyddai'n dewis peidio â thalu i ymestyn eu hamseroedd ymweld y tu hwnt i'r amseroedd a nodir uchod, gan arwain at golli £2.60, swm na fyddai'n cael ei ystyried fel incwm a gollwyd yn yr hyn a amcangyfrifir yn **Nhabl 2**.

Felly, mae disgwyl i'r effaith ariannol fod hyd yn oed yn fwy sylweddol.

Amser	1 awr	Gwerth (net)	2 awr	Gwerth (net)	Cyfanswm (net)
8am	3,396	£5,972.33	2,162	£4,929.00	**£10,901.33**
9am	11,140	£19,597.66	10,170	£23,091.67	**£42,689.33**
10am	18,037	£31,735.58	19,529	£45,005.50	**£76,741.08**
					£130,331.75

Tabl 2. Nifer y tocynnau a werthwyd rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023 o dan brisiau 23/24 *(ac eithrio Llandysul a Thregaron lle na chodwyd tâl yn ystod y cyfnod hwn)*

Pe byddai'r cynnig yn cael ei argymell, byddai disgwyl i'r Pwyllgor nodi sut y gellid ariannu'r cynnig yn llawn (Dylid nodi, pe byddai'r trefniadau presennol yn Llandysul a Thregaron yn parhau y byddai angen, o bosib, nodi cyfanswm o hyd at £170,000 (net)).

Byddai angen i'r cynnig gael ei ariannu drwy un o'r canlynol:

- nodi gostyngiadau yn y cyllidebau gwariant ar gyfer swyddogaethau a ddarperir gan y Priffyrdd a'r Gwasanaethau Amgylcheddol, a fydd yn arwain at ostyngiad yn lefelau'r gwasanaethau a ddarperir a/neu ostyngiadau yn y lefelau staffio
- nodi gostyngiadau yn y cyllidebau gwariant ar gyfer swyddogaethau a ddarperir gan feysydd gwasanaeth eraill y Cyngor ynghyd ag adlinio'r gyllideb, a fydd yn arwain at ostyngiad yn lefelau'r gwasanaethau a ddarperir a/neu ostyngiadau yn y lefelau staffio

- cynnydd ychwanegol o 0.325% yn Nhreth y Cyngor sydd tu hwnt i'r hyn a gynigir ar gyfer 24/25 er mwyn sicrhau hyd at £130,000 (net) ar gyfer y cynnig ar gyfer parcio am ddim am 2 awr a phe byddai'r Pwyllgor hefyd yn argymell cadw'r ddarpariaeth rad ac am ddim yn Llandysul a Thregaron y tu hwnt i 23/24, byddai angen cynnydd o 0.425% i sicrhau hyd at £170,000 (net).

Yn fwy cyffredinol, yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, ac o ystyried y pwysau difrifol ar y modd y darperir ystod eang o wasanaethau statudol a rheng flaen, yn ogystal â'r argyfwng costau byw sydd wedi golygu cynnydd dirfawr yn nifer y teuluoedd sy'n dibynnu ar fanciau bwyd ym mhob rhan o'r sir, byddai angen ystyried pa mor briodol fyddai defnyddio arian cyhoeddus i sybsydeiddio gwasanaeth dewisol pan fo dewisiadau eraill ar gael.

1.7 Ystyriaethau ymarferol

Yn ogystal â'r goblygiadau ariannol, ceir rhai ystyriaethau ymarferol a fydd hefyd yn costio arian. Mae'r ystyriaethau hyn fel a ganlyn:

- Byddai angen newid meddalwedd y peiriannau talu ac arddangos presennol er mwyn rhoi'r ddarpariaeth ar waith. Byddai cost o oddeutu £5,000 yn gysylltiedig â hyn.

- Byddai angen ystyried yr effaith ar arbedion effeithlonrwydd sy'n ymwneud â gorfodi cyfyngiadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd – mae'r patrolau presennol yn cyfuno'r gwaith gorfodi ar y stryd ac oddi ar y stryd. Pe byddai'r cynnig hwn yn dod i rym, byddai'n rhaid i'r ymweliadau â'r trefi / lleoliadau cyn 11am gael eu hailadrodd yn y prynhawn fel y gellid monitro cydymffurfiaeth yn y meysydd parcio a byddai hyn yn arwain at y canlynol:

    - Gostyngiad yn nifer yr achosion o fonitro mewn meysydd parcio gyda'r posibilrwydd y bydd llai o orfodi yn golygu y bydd llai o gydymffurfio ac yn sgil hynny llai o incwm.
    - Gostyngiad yn nifer yr ymweliadau â lleoliadau eraill lle nad oes meysydd parcio.
    - Mwy o gostau teithio am y bydd angen dychwelyd i'r lleoliadau dan sylw i fonitro'r meysydd parcio.

- Gan ddibynnu ar union fanylion unrhyw gynnig sy'n mynd rhagddo, efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r Gorchymyn Parcio Oddi ar y Stryd. Pe byddai angen gwneud hyn, byddai angen i'r broses gynnwys proses ymgynghori ffurfiol gan gynnwys hysbysiadau cyhoeddus a'r costau sy'n gysylltiedig â hyn. Gallai'r newidiadau i'r gorchmynion hyn gymryd hyd at 6 –18 mis i'w cyflwyno a gallai hyn gostio tua £5,000.
- Gan ddibynnu ar union fanylion unrhyw gynnig sy'n mynd rhagddo, efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r arwyddion wrth y mynedfeydd i'r meysydd parcio ac o fewn y meysydd parcio. Byddai cost o ryw £15,000 yn gysylltiedig â hyn.

1.8 Ystyriaethau eraill

Yn ogystal â'r ystyriaethau a nodwyd eisoes, mae yna rai ystyriaethau eraill o ran y cynnig gan gynnwys y canlynol:

- Byddai'n rhaid ystyried a ydy'r cynnig yn cyd-fynd â'r ffaith bod y Cyngor wedi datgan argyfwng hinsawdd byd-eang (http://www.ceredigion.gov.uk/cpdl/Democratic_Services_Meetings_Public/B_RHYBUDD%20GYNNIG%20-%20NOTICE%20OF%20MOTION%20-%20CYNGOR%20-%20COUNCIL%2005.03.20.pdf**)** gan y gallai'r cynnig gael ei weld fel petai'n annog pobl i ddefnyddio cerbydau preifat.

- O dan y trefniadau presennol ym Maes Parcio Stryd y Farchnad, Llanbedr Pont Steffan, mae archfarchnad Sainsbury yn rhoi ad-daliad am y costau parcio i bobl sy'n gwario swm penodol o arian wrth siopa yn yr archfarchnad. Gallai unrhyw ddarpariaeth rad ac am ddim yn y maes parcio hwn arwain at arbediad ariannol i fusnes preifat ac efallai y byddai rhai yn ystyried ein bod yn sybsideiddio incwm i fusnes preifat.

1.9 Opsiynau posibl eraill

Ymhlith yr opsiynau posibl eraill y gellid eu hystyried y mae newid yr oriau codi tâl ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor fel eu bod yn dechrau am 9am neu 10am. Byddai hyn felly yn darparu 1 neu 2 awr o barcio rhad ac am ddim o gymharu â'r trefniadau presennol ar gyfer codi tâl. Byddai angen canfod rhwng £11,000 (9am) a £53,500 (10am) i ariannu'r cynnig amgen hwn. Byddai'r cynnig hwn yn fwy syml ac yn fwy clir i'w roi ar waith.

1.10 Casgliad

Gall parcio fod yn fater emosiynol a phroffil uchel sy'n arwain at lawer o drafod a sylwadau.

Un farn boblogaidd yw bod parcio am ddim yn rhywbeth cadarnhaol a'i fod yn arwain at fwy o ymwelwyr a llewyrch economaidd.

Fodd bynnag, ymddengys nad oes fawr ddim tystiolaeth bendant i gefnogi'r farn hon ac mae adroddiadau (e.e. adroddiad *"Asesu effaith taliadau meysydd parcio ar nifer yr ymwelwyr yng nghanol y dref"* Llywodraeth Cymru) wedi dangos bod nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y mannau y mae pobl yn ymweld â nhw, pam eu bod yn mynd i'r mannau hyn a pha mor aml y bydd rhywun yn ymweld â lleoliad penodol.

Er efallai y byddai darparu mwy o barcio am ddim yn cael ei groesawu, nid yw hi mor glir pa fuddion pendant fyddai'n cael eu sicrhau o wneud hynny.

Mae'r incwm y mae'r Meysydd Parcio Talu ac Arddangos yn ei greu yn gwneud cyfraniad mawr i'r gyllideb sy'n cael ei ddefnyddio i gynnal a chadw a rheoli'r meysydd parcio yn barhaus, ynghyd â darparu gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau eraill sy'n gysylltiedig â hynny.

Byddai goblygiadau ariannol cynnig 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos Cyngor Sir Ceredigion yn fawr a byddai'n debygol o fod tua £130,000 (net) y flwyddyn.

Mae'r gwasanaeth yn archwilio cyfleoedd ac opsiynau i ddatblygu ymhellach ar bortffolio'r Cyngor o ran Meysydd Parcio Talu ac Arddangos a'r bwriad yw cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am hyn i'r Pwyllgor hwn yn ddiweddarach yn 2023/24.

	A oes Asesiad Effaith Integredig wedi'i gwblhau? Os nad oes, esboniwch pam	Yn dilyn cais gan Aelodau'r Pwyllgor am adroddiad ynghylch y mater hwn, gofynnir iddynt ystyried yr adroddiad.
LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:	**Crynodeb:** Ddim yn berthnasol **Hirdymor:** Ddim yn berthnasol **Integreiddio:** Ddim yn berthnasol **Cydweithio:** Ddim yn berthnasol **Cynnwys:** Ddim yn berthnasol **Atal:** Ddim yn berthnasol	

ARGYMHELLIAD: Bod y Pwyllgor Craffu yn nodi cynnwys yr adroddiad

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD: Ddim yn berthnasol

Enwau cyswllt:	Gerwyn Jones
	Katy Spain
Swyddi:	Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Amgylcheddol
	Rheolwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Trafnidiaeth

Atodiad 3

Tocynnau 1 awr a 2 awr a werthwyd yn Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi rhwng 01.04.2022 a 31.03.2023 (7 diwrnod yr wythnos)

	08:00:00 – 08:59:59				09:00:00 – 09:59:59			
Lleoliad	1 awr	Gwerth (£)	2 awr	Gwerth (£)	1 awr	Gwerth (£)	2 awr	Gwerth (£)
Aberaeron								
Traeth y Gogledd	-	0	39	81.20	-	0	248	523.30
Ffordd y Gaer Isaf	39	65.40	42	78.90	334	563.10	529	999.40
Traeth y De	-	0	18	37.60	-	0	102	220.20
Cyfanswm	39	65.40	99	197.70	334	563.10	879	1,742.90
Llanbedr Pont Steffan								
Cwmins	159	268.90	107	223.80	697	1,178.00	540	1,127.10
Stryd y Farchnad	2,118	3,579.40	750	1,569.40	5,548	9,376.80	2,924	6,110.30
Rookery	67	113.50	46	96.40	269	456.20	223	467.60
Cyfanswm	2,344	3,961.80	903	1,889.60	6,514	11,011	3,687	7,705.00
Aberteifi								
Cae'r Ffair	298	502.80	242	505.70	1,049	1,772	1,116	2,330.10
Sgwâr Cae Glas	287	485.00	380	794.00	2,123	3,586.40	2,209	4,615.40
Stryd y Cei	45	75.80	111	231.70	504	851.00	796	1,663.50
Cyfanswm	630	1,063.60	733	1,531.40	3,676	6,209.40	4,121	8,609.00
Cyfanswm ar gyfer y tair tref	3,013	£5,090.80	1,735	£3,618.70	10,524	17,783.50	8,687	18,056.90

Atodiad 4

Tocynnau 1 awr a 2 awr a werthwyd yn Aberaeron, Llanbedr Pont Steffan ac Aberteifi rhwng 01.04.2022 a 31.03.2023 (Dydd Llun- Dydd Gwener)

	08:00:00 – 08:59:59				09:00:00 – 09:59:59			
Lleoliad	1 awr	Gwerth (£)	2 awr	Gwerth (£)	1 awr	Gwerth (£)	2 awr	Gwerth (£)
Aberaeron								
Traeth y Gogledd	-	0	27	56.00	-	0	135	288.00
Ffordd y Gaer Isaf	22	37.00	31	58.30	199	335.70	267	504.00
Traeth y De	-	0	9	18.80	-	0	72	155.20
Cyfanswm	22	37.00	67	133.10	199	335.70	474	947.20
Llanbedr Pont Steffan								
Cwmins	144	243.60	87	181.80	584	987.00	455	950.00
Stryd y Farchnad	1,700	2,874.90	649	1,358.70	4,543	7,680.40	2,579	5,390.00
Rookery	56	95.00	37	77.50	216	366.50	170	356.40
Cyfanswm	1,900	3,213.50	773	1,618.00	5,343	9,033.90	3,204	6,696.40
Aberteifi								
Cae'r Ffair	259	437.20	215	449.30	911	1,539.40	988	2,062.70
Sgwâr Cae Glas	233	394.30	314	656.10	1,760	2,974.30	1,849	3,863.90
Stryd y Cei	36	60.60	86	179.60	404	682.00	650	1,358.80
Cyfanswm	528	892.10	615	1,285.00	3,075	5,195.70	3,487	7,285.40
Cyfanswm ar gyfer y tair tref	2,450	4,142.60	1,455	3,036.10	8,617	14,565.30	7,165	14,929.00

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

ADRODDIAD I:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus
DYDDIAD:	23 Hydref 2023
LLEOLIAD:	Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell drwy gynhadledd fideo
TEITL:	Canolfan Bwyd Cymru

Cefndir

Adeiladwyd Canolfan Bwyd Cymru gan Gyngor Sir Ceredigion yn Horeb, Llandysul, ac fe'i hagorwyd ym 1996, i ddarparu cymorth technegol i'r diwydiant bwyd yng Ngheredigion yn ogystal â Chanolbarth a De-orllewin Cymru. Mae ei leoliad, yn hygyrch i gymunedau gwledig yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro yn amlygu un o'i amcanion allweddol, sef cefnogi busnesau amaeth sydd am arallgyfeirio i ychwanegu gwerth at gynnyrch craidd.

Mae Canolfan Fwyd Cymru yn darparu gwasanaethau technegol i fusnesau newydd, busnesau bach a chanolig a gweithgynhyrchwyr bwyd cenedlaethol. Mae cyfres o gyfleusterau modern y Ganolfan yn cynnwys canolbwynt arloesi a gweithgynhyrchu sydd wedi'i ddylunio a'i gyfarparu i ddarparu ar gyfer datblygu cynnyrch a phrosesau ar raddfa fach a gweithgynhyrchu masnachol.

Mae'r Ganolfan hefyd yn rheoli pedair uned ddeor a ddyluniwyd yn arbennig i roi adeiladau safonol y diwydiant cychwynnol ac amgylchedd cefnogol i sefydlu troedle yn y diwydiant bwyd a diod.

Darpariaeth bresennol

Mae Canolfan Bwyd Cymru wedi ffurfio partneriaeth gyda dwy ganolfan dechnoleg fwyd arall yng Nghymru, sydd wedi'i lleoli yn Llangefni ac yng Nghaerdydd i ddarparu cefnogaeth ledled Cymru i'r diwydiant bwyd. Mae'r bartneriaeth - Arloesi Bwyd Cymru - yn darparu un o fentrau cymorth strategol allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant trwy brosiect HELIX. Mae'r prosiect, a ariannwyd drwy Lywodraeth Cymru, a chyn hynny drwy'r Cynllun Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd, yn darparu cyfran sylweddol o'r cyllid ar gyfer Canolfan Bwyd Cymru. Mae Prosiect HELIX yn cynnig cefnogaeth sydd wedi'i theilwra i anghenion cwmnïau unigol. Mae Prosiect HELIX yn darparu gweithgarwch trosglwyddo gwybodaeth ymarferol, gan gefnogi cwmnïau o Gymru i ddatblygu ac ail-lunio cynhyrchion arloesol o gysyniad, dylunio, datblygu a gweithgynhyrchu, hyd at fasged siopa'r defnyddiwr. Mae Prosiect HELIX yn gweithio gyda chwmnïau o Gymru i ddadansoddi pob cam o'r broses weithgynhyrchu yn fforensig, gan nodi ffyrdd o gyflwyno arbedion effeithlonrwydd ar draws rheolaethau prosesau, dylunio safleoedd a datblygu systemau. Mae dull strategol Project HELIX yn galluogi cynhyrchwyr bwyd yng Nghymru i elwa o arfer gorau a gwybodaeth o bob cwr o'r byd. Er enghraifft, gall cwmnïau dderbyn cymorth i gyflawni ardystiad allanol fel BRCGS a SALSA sy'n agor marchnadoedd newydd ar gyfer eu cynhyrchion.

Yn ogystal â darparu cefnogaeth i fusnesau bwyd drwy raglenni a ariennir gan y Llywodraeth, mae Canolfan Bwyd Cymru hefyd yn darparu gwasanaethau masnachol i'r sector. Ar hyn o bryd, mae 12 o fusnesau bwyd yn cynhyrchu o Hwb Gweithgynhyrchu ac Arloesi'r Ganolfan, ac mae 4 cwmni arall yn gweithredu o'r unedau deor ar y safle. Mae'r tîm hefyd yn darparu cyngor a chymorth masnachol oddi ar y safle ar faterion fel achredu, dylunio ffatri, a hyfforddiant technegol,

Effaith ar yr economi

Trwy brosiect HELIX ers 2016, mae tîm Canolfan Bwyd Cymru wedi sicrhau canlyniadau da yn erbyn y targedau a osodwyd. Crynhoir cyflawniadau ac effaith ymyriadau ar y busnesau a gefnogir drwy'r prosiect isod:

CYFANSYMIAU HELICS CYFUN	
Allbwn	**Cyflawniad**
Busnesau a gefnogwyd	**244**
Unigolion a gefnogwyd	**598**
Nifer y diwrnodau hyfforddiant a roddwyd	**510.8**
Busnesau Newydd	**152**
Cynhyrchion Bwyd a Diod Newydd	**554**
Marchnadoedd Newydd	**262**
Swyddi newydd wedi'u creu	**59.53**
Swyddi wedi'u diogelu	**220**
Achrediadau allanol	**21**
Effaith ariannol	**£49,990,770.13**

Mae tua 30% o'r busnesau a gefnogwyd yng Ngheredigion.

Cynlluniau i'r dyfodol

Yn 2019, prynodd Cyngor Sir Ceredigion 5 erw arall o dir ger yr ystâd bresennol yn Horeb i hwyluso cynlluniau twf yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae dau brosiect yn cael eu datblygu a'u hasesu i'w cynnwys yn rhaglen y Cynllun Twf ar gyfer Canolbarth Cymru:

i. Sefydlu Canolfan Arloesi Cynhyrchu Bwyd, a fyddai'n dod â'r cyfleusterau peilot diweddaraf ar raddfa ddiwydiannol gyda'r nod o alluogi twf mwy o fusnesau gweithgynhyrchu bwyd canolig eu maint yng nghanolbarth Cymru.

ii. Darparu cyfleusterau mwy o faint ar gyfer cwmnïau gweithgynhyrchu bwyd, gan adeiladu ar yr unedau deor presennol yng Nghanolfan Bwyd Cymru.

Byddai'r datblygiadau hyn yn gwella ymhellach y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer y sector bwyd-amaeth yng Ngheredigion, sy'n allweddol i'w les economaidd, a byddant yn helpu i ddiogelu dyfodol y Ganolfan a'i berthnasedd a hyfywedd hirdymor.

PWRPAS YR ADRODDIAD:	**Darparu cefndir a diweddariad i'r Pwyllgor ar ased allweddol sy'n cefnogi'r sector bwyd-amaeth yng Ngheredigion, cyn ymweliad safle arfaethedig i archwilio ymhellach ei rôl nawr ac yn y dyfodol.**
RHESWM MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:	Fel ased allweddol i Gyngor Sir Ceredigion sy'n bodoli i gefnogi datblygiad un o sectorau economaidd allweddol Ceredigion, mae hwn yn gyfle i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Llewyrchus adolygu gwaith presennol Canolfan Bwyd Cymru, ac asesu'r cynlluniau cynnar ar gyfer datblygu'r safle yn y dyfodol a sut y gall gefnogi'r sector bwyd-amaeth yng Ngheredigion i addasu i newid,
A oes asesiad effaith integredig wedi'i gwblhau? Os nad ydych, nodwch pam	Nid ar hyn o bryd - bydd yr Achos Busnes i gefnogi buddsoddiad yn y dyfodol, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn cynnwys Asesiad Effaith Integredig
	Crynodeb:
	Hirdymor:
	Integreiddiad:
	Cydweithio:
	Cyfranogiad:
	Ataliad:

ARGYMHELLIAD (S): Bod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Llewyrchus yn ystyried yr adroddiad ac yn rhoi adborth ar y materion a godwyd ynddo a chynnal ymweliad safle i adolygu gwaith y safle a'i gynlluniau ar gyfer y dyfodol.

RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD (AU):

Helpu i sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd i gefnogi twf yr economi yng Ngheredigion.

Enw Cyswllt:	Russell Hughes-Pickering, Arwyn Davies
Dynodi:	Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Rheolwr Corfforaethol
Dyddiad yr Adroddiad:	13/10/23
Acronymau:	BRCGS – Safonau Byd-eang Consortiwm Manwerthu Prydain SALSA – Achrediad Cyflenwyr Diogel a Lleol

Atodiadau:

a

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ddydd Llun, 31 Gorffennaf 2023

Yn bresennol: Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd), y Cynghorwyr Marc Davies, Gethin Davies, Meirion Davies, Rhodri Evans, Chris James, Maldwyn Lewis, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, John Roberts a Carl Worrall.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr Keith Evans, Ifan Davies, Euros Davies Amanda Edwards, Elizabeth Evans, Elaine Evans, Eryl Evans, Wyn Evans, Hugh Hughes, Gareth Lloyd ac Alun Williams

Aelodau Cabinet yn bresennol: Y Cynghorwyr Catrin M S Davies, Clive Davies, Keith Henson.

Swyddogion Dŵr Cymru yn bresennol: Mrs Kelly Jordan, Rheolwr Cyswllt Ansawdd Afonydd (Asedau Dŵr Gwastraff); Mr Ryan Norman, Rheolwr Twf (Datblygu) a Miss Rebecca Jones, Rheolwr Cymunedol (Cyfathrebu).

Swyddogion yn bresennol: Mr Rhodri Llwyd, Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol; Mr Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Priffyrdd; Mr Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Amgylcheddol; Dr Sarah Groves-Phillips - Rheolwr Gwasanaeth – Polisi Cynllunio; Mrs Caroline Wride, Rheolwr Gwasanaeth – Cynnal a Chadw'r Priffyrdd; Mr Ian Williams, Cynorthwyydd Technegol – Prosiectau; Miss Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau.

(10.00am- 2:10pm)

1 Ymddiheuriadau
Dim.

2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
Dim.

3 Trafodaeth ar gynllunio a ffosffadau Dwr Cymru Welsh Water (DCWW)
Rhoddodd Dr Sarah Groves-Phillips grynodeb o'r adroddiad a gyflwynwyd ynghylch cynllunio a ffosffadau a rhoddodd Mrs Kelly Jordan, Rheolwr Cyswllt Ansawdd Afonydd (Asedau Dŵr Gwastraff) a Mr Ryan Norman, Rheolwr Twf (Datblygu) gyflwyniad *PwyntPŵer* am eu gwaith o ran y mater hwn. Darparwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Trosolwg – Cynlluniau Buddsoddi a Rhaglenni Ymchwilio Dŵr Cymru
- Asesiad o'r Perfformiad Amgylcheddol
- Ffosfforws – yr hyn y mae Dŵr Cymru wedi'i wneud hyd yma
- Ffosfforws mewn Ardal Gadwraeth Arbennig
- Deall ffynonellau ffosfforws yn Afon Teifi
- Ffosfforws – beth am AMP7 a thu hwnt i hynny?
- Cyfathrebu â'n rhanddeiliaid - yr hyn yr ydym wedi'i wneud hyd yma
- Gwasanaethau Datblygwyr a'r broses gynllunio
- Asesiadau o ran ymgynghoriadau cynllunio
- Adolygiadau Cyfoeth Naturiol Cymru o'r broses drwyddedau – y camau nesaf
- Yr ymateb cynllunio yn dilyn adolygiad Cyfoeth Naturiol Cymru o'r trwyddedau
- Cydweithio a Rhannu Gwybodaeth
- Deall ein hasedau- gorlif storm
- Y ffordd y mae'r gorlif carthffosiaeth gyfun yn gweithio.
- Deall ein hasedau

Yn dilyn cwestiynau gan yr Aelodau am faterion o fewn wardiau penodol ac esboniad am y materion a godwyd yn y cyflwyniad, CYTUNWYD y dylid nodi'r sefyllfa bresennol ac y byddai dyddiadau unrhyw waith y byddai Dŵr Cymru yn ei wneud yn y Sir yn y dyfodol yn cael eu hanfon at y Cynghorwyr er gwybodaeth.

4 Darparu Gwasanaeth y Gaeaf

Rhoddodd Mr Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Priffyrdd gyflwyniad manwl i'r Aelodau am Wasanaeth y Gaeaf gan gynnwys y materion canlynol:-

- Y sefyllfa gyfreithiol
- Y gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd
- Y bwriad i leihau cyllideb y gwasanaeth cynnal a chadw dros y gaeaf
- Yr opsiynau sydd ar gael ar gyfer y dyfodol

Cododd yr Aelodau bryderon ynghylch y ffyrdd nad oeddynt yn cael eu graeanu yn eu Wardiau. Serch hynny, yn unol â'r protocolau asesu (y matrics), roedd pob un o ffyrdd y Sir wedi'u sgorio'n wrthrychol ac roedd y sgoriau hyn wedi'u cadarnhau gan ail swyddog. Roedd materion megis a oedd y ffordd yn agos at ysgol neu ar lwybr bysiau, ac ati, hefyd yn cael eu hystyried. Awgrymwyd y dylai'r Aelodau dderbyn gwybodaeth am sgoriau'r ffyrdd nad oeddynt yn cael eu graeanu fel y gallent roi gwybod i'w trigolion am benderfyniadau'r Cyngor.

Yn dilyn eglurhad ynghylch y materion a godwyd yn y cyflwyniad a thrafodaeth ynghylch dulliau eraill o raeanu gan gynnwys halen craig a gofyn i ffermwyr gynorthwyo yn ystod tywydd gwael, CYTUNWYD y dylai'r swyddogion gynnal adolygiad cynhwysfawr o Wasanaeth y Gaeaf yn barod ar gyfer gaeaf 2024/25.

5 Ystyried y cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor.

Cyflwynodd y Cynghorydd Keith Henson yr eitem ynghylch y cynnig i roi 2 awr o barcio am ddim cyn 11am ym Meysydd Parcio Talu ac Arddangos y Cyngor a rhoddodd Mr Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Amgylcheddol gyflwyniad i'r aelodau. Darparwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Y cefndir
- Proffil y tocynnau
- Yr ystyriaethau
- Yr effaith ariannol
- Yr hyn sydd i'w ystyried a'r opsiynau

Cyflwynodd y Cynghorydd Ann Bowen Morgan gynnig am 2 awr o barcio am ddim ym meysydd parcio'r Cwmins a'r Rwceri yn Llanbedr Pont Steffan gan y byddai hyn, yn ei barn hi, yn cefnogi busnesau ac yn annog twristiaid i ymweld â'r dref. Fel rhan o broses pennu'r gyllideb ar gyfer 2023/24, roedd yr Aelodau wedi cytuno ar flwyddyn arall o barcio am ddim ym meysydd parcio talu ac arddangos Tregaron a Llandysul. Cyfrannodd Aelodau eraill at y drafodaeth am y cynnig a gyflwynwyd a rhannodd y Cynghorwyr Elizabeth Evans, Sian Maeherlin ac Elaine Evans eu barn â'r Pwyllgor ynglŷn â pharcio am ddim yn y meysydd parcio yn eu wardiau.

CYTUNWYD felly i argymell y dylai'r Cabinet:-
(i) ystyried cynnal adolygiad ynghylch codi tâl am barcio ar hyd y Promenâd yn Aberystwyth; ac
(ii) ystyried cynnig 2 awr o barcio am ddim rhwng 8am a 10am, o ddydd Llun i ddydd Gwener, mewn un maes parcio ym mhob un o drefi Llanbedr Pont Steffan, Aberaeron ac Aberteifi

6 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2023.

Materion yn codi:
Dim.

7 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu

Cytunwyd i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith a gyflwynwyd yn amodol ar nodi y gallai'r canlynol gael eu hystyried yng nghyfarfodydd y dyfodol:-

- Effaith cynlluniau a ariennir gan grantiau – beth yw'r effaith, pa mor dda mae arian yn cael ei dynnu i lawr
- Y defnydd a wneir o adeiladau
- Y Polisi Torri Porfa
- Y berthynas rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru o ran Cynllunio Gwlad a Thref

- Cymorth i Fusnesau ac Adfywio

Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar Dydd Llun, 23 Hydref 2023

Cadeirydd:_____

Dyddiad:_____

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

Adroddiad i'r: **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**

Dyddiad y Cyfarfod: **23 Hydref 2023**

Teitl: **Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/2024**

Pwrpas yr adroddiad: **Adolygu Rhaglen waith bresennol y Pwyllgor**

Rheswm pam fod Craffu wedi gofyn am y wybodaeth:
Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod

Cefndir:

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor

- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

Y Sefyllfa Gyfredol:
Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

Dewis pynciau
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam
Na

Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:
Hirdymor:
Cydweithio:
Cynnwys:
Atal:
Integreiddio:

Argymhelliad / Argymhellion:
Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:

Enw Cyswllt: Lisa Evans

Swyddogaeth: Swyddog Craffu a Safonnau

Dyddiad yr adroddiad: 17/10/23

Acronymau:

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2022/23

Pwyllgor	Eitem (disgrifiad/teitl)	Siaradwyr Gwadd	Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion
Cymunedau Ffyniannus			
22 Mehefin 2023	Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd (o'r gofrestr risgiau) Creu Grwp Gweithio Gwasanaeth Gwastraff Diweddariad ar lwyth achosion Rheoli Datblygu a Gorfodi	Phil Jones Gwahoddiad i Adnoddau Naturiol Cymru Rhodri Llwyd Russell Hughes Pickering	O'r gofrestr risgiau Adolygiad Monitro
31 Gorffennaf 2023	Adroddiad ar yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am (o'r cyfarfod cyllideb) Gwasanaeth Gaeaf Trafodaeth ar gynllunio a ffosffadau Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW)	 Gwahoddiad i Dwr Cymru	Argymhellion Adolygiad Monitro
23 Hydref 2023	Parcio Canolfan Bwyd Cymru	Gerwyn Jones/Phil Jones Arwyn Davies	

18 Rhagfyr 2023	Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau Torri Porfa	Gerwyn Jones Phil Jones	Polisi
9 Chwefror 2024	Cyllideb		
18 Mawrth 2024			
Cyfarfodydd y dyfodol	Awgrymiadau: Effaith cynlluniau a ariennir gan grant – beth yw'r effaith, pa mor dda mae arian yn cael ei dynnu i lawr Defnydd o le – sut allwn ni ei wneud yn fwy bywiog, cynyddu incwm CDLl Adolygu strategaeth toiledau cyhoeddus Y defnydd a wneir o adeiladau Y Polisi Torri Porfa Y berthynas rhwng Cyngor Sir Ceredigion a Llywodraeth Cymru o ran Cynllunio Gwlad a Thref		

	Cymorth i Fusnesau ac Adfywio		

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol